# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Chwefror 2023

Amser: 09.01 - 12.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13200

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS<br>Hefin David AS<br>Jane Dodds AS<br>Tom Giffard AS |
| Tystion: | Daljit Kaur Morris, National Youth Advocacy Service<br>Helen Perry, National Youth Advocacy Service (NYAS) Cymru<br>Mark Carter, Barnardo's Cyrmu De Dwyrain Cymru<br>Amy Bainton, Barnado's Cymru<br>Syr Andrew Mcfarlane, Family Court Judge<br>Yr Anrh. Mr Justice Francis, Family Court Judge |

| | |
|---|---|
| | Vikki Morris, Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder<br>Peter Spinner, Cynllun Peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol<br>Melissa Meindl, CASCADE, Prifysgol Caerdydd<br>David Westlake, CASCADE, Prifysgol Caerdydd<br>Orla MacRae, Llywodraeth y DU<br>Kwamina Korsah, Llywodraeth y DU<br>Gabrielle Melvin, Llywodraeth y DU<br>Becky Woods, Llywodraeth y DU |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhys Morgan (Clerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Lleu Williams (Clerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Jane Dodds AS i’r cyfarfod ar gyfer eitemau 1 i 6 a Tom Giffard AS a Hefin David ar gyfer eitem 8.

## 2 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical – sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brosiect Undod NYAS Cymru a Gwasanaeth Babanod a Fi Barnardo's.

2.2 Cytunodd Barnardo's Cymru i ddarparu enghreifftiau o arfer da wrth gynhyrchu asesiadau rhianta o safon mewn modd amserol.

## 3 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical – sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Mcfarlane a'r Anrhydeddus Mr Ustus Francis.

3.2 Cytunodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Mcfarlane i ddarparu enghreifftiau o arfer da awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n defnyddio'r gwaith cyn y caiff achosion eu cynnal i ddargyfeirio achosion rhag cyrraedd y llys teulu.

## 4 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical – sesiwn dystiolaeth 8

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y Cynllun Peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC).

4.2 Cytunodd y Cynllun Peilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol i ddarparu gwerthusiad blwyddyn gyntaf y 15 teulu yn y cynllun peilot a’r ystadegau diweddaraf o ran yr heriau y mae teuluoedd yn y cynllun peilot yng Nghymru wedi’u profi.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 15 Chwefror

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical - trafod y dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.

## 8 Y Bil Diogelwch Ar-lein - sesiwn friffio gan swyddogion Llywodraeth y DU

8.1 Cafodd y Pwyllgor friff ar Fil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.